

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

**DYDD LLUN, 15 MAI 2023**

**PRESENNOL** Cyngorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

B.W. Jones                                      B. Davies                                      H.B. Shepardson                                      R. Sparks  
M. Thomas

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

W.R.A. Davies                                      R.E. Evans                                      H.L. Davies                                      J.K. Howell  
M. Palfreman

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

Y Cyngorydd L. D. Evans – Aelod Cabinet – Dirprwy Arweinydd a Chartrefi  
Y Cyngorydd G. John – Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a  
Thwristiaeth

Y Cynghorwyr J. James mewn cysylltiad â Chofnodion 4 a 5

Y Cyngorydd S. Godfrey-Coles mewn cysylltiad â Chofnodion 4 a 5

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

J. Jones, Pennaeth Adfywio  
I. Jones, Pennaeth Hamdden  
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd  
A. Bowen, Arweinydd Buddsodi yn ein Tai  
R. Parkinson, Arweinydd Tim - Cyngor ynghylch Tai  
T Peregrine, Datblygu Economaidd Cydlwydd  
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau  
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidd  
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol  
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

J. Fearn, Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol  
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o Bell - 10.00 yb - 12.15 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW  
CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR  
AGENDA**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

#### **4. DEISEB HARBWR PORTH TYWYN I'R CYNGOR LLAWN - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddarau mewn ymateb i ddeiseb a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 25 Ionawr 2023 gan Gyfeillion Marina Porth Tywyn (FBPM), gan fynegi eu hanfodlonrwydd o ran gweithrediad a chyflwr Harbwr Porth Tywyn, cyn i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Mehefin. Gweithredir yr harbwr ar brydles 150 mlynedd gan Burry Port Marine Limited (BPML).

Nododd yr adroddiad yn ddiamwys fod y Cyngor Sir yn rhannu nod datganedig FBPM o fod eisiau cyfleuster diogel, gweithredol a deniadol sydd o fudd gwirioneddol i ddefnyddwyr yr harbwr a'r gymuned gyfan.

Cyfeiriodd yr adroddiad yn benodol at faterion a phryderon a nodwyd gan yr FBPM gan gynnwys:

- Cydnabuwyd bod y diffyg carthu yn yr harbwr dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at laid a mwd yn cronni gan rwystro ei weithrediad a llongau yn cyrraedd ac yn gadael yr harbwr. Mae'r adroddiad yn nodi bod cynllun carthu methodoleg gymysg wedi'i ddogfennu (i gynnwys agor llifddorau'n rheolaidd a charthu trwy chwistrellu dŵr) wedi'i gyflwyno gan BPML a'i bostio ar eu gwefan. Fodd bynnag, cadarnhaodd diweddariad llafar gan y Pennaeth Hamdden, fod camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag amser o fewn y cynllun hwn yn llithro ac nad oeddent yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd.
- Cadarnhad bod CSC, fel landlord, wedi ysgrifennu'n ffurfiol at BPML i'w rhoi ar rybudd o dorri amodau yn erbyn telerau'r les, ac yn benodol o ran eu rhwymedigaeth i garthu'r Harbwr i ddyfnder o 1.0 metr o leiaf ar lefel Gronni.
- Bod swyddogion y Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Grŵp Morol, lle'r oedd pryderon gweithredol wedi codi ac yn parhau i gael eu codi yn ogystal ag aelodau lleol a Chadeirydd Cyfeillion Marina Porth Tywyn i arfarnu'n rheolaidd ar y sefyllfa yn yr harbwr.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y canlynol:

- Crynhoad dyled i'r Cyngor mewn perthynas â chyfraddau, rhent a thaliadau eraill (a sefyllfa'r Cyngor o ran adferiad), yn erbyn yr amgylchedd ariannol heriol a amlygwyd gan BPML, ynghyd ag effaith Covid, ac argyfyngau ariannol a chostau byw ar yr economi ehangach

Gwnaed sawl cyfeiriad gan aelod lleol, y Cynghorydd John James, a'r Pwyllgor ehangach at gyflwr dirywiol yr harbwr dros y 5 mlynedd diwethaf, ers dyfarnu'r Brydles gan y Cyngor i'r Grŵp Morol, ac at addewidion wedi'u torri a thorri amodau prydles gan y cwmni dros y cyfnod hwnnw. Roedd y rheiny, ynghyd â phryderon eraill, yn cynnwys:

- y diffyg carthu yn yr harbwr i'r pwynt lle mae bellach yn effeithio'n ddifrifol ar weithrediadau harbwr ar gyfer defnyddwyr cychod,

- diffyg gwaith atgyweirio a chynnal a chadw gan gynnwys gatiâu'r harbwr a oedd wedi bod yn anweithredol dros y misoedd diwethaf gydag olew yn gollwng i'r dŵr.
- pontynau'n torri'n rhydd yn yr harbwr ac yn arnofio i'r bae.
- Er bod gan yr harbwr 450 o angorfeydd, dim ond 49 oedd wedi'u meddiannu.
- Sefyllfa ariannol y cwmni
- Gallai cyflwr presennol yr harbwr atal unrhyw ddiddordeb gan ddarpar weithredwyr yn y dyfodol.

Mynegwyd pryderon hefyd mewn perthynas â rhestr o welliannau eraill o amgylch yr harbwr nad oeddent yn datblygu, gan gynnwys uwchraddio'r pontynau masnachol, ail-gychwyn gwaith i hen adeilad yr RNLI i fod yn Swyddfa Harbwrfeistr newydd a chyfleusterau gwell i ddefnyddwyr yr harbwr newid dillad a chael cawod.

O ystyried yr uchod, mynegodd y Pwyllgor bryderon difrifol am hyfywedd yr harbwr yn y dyfodol i'r pwynt lle, oni bai bod yr amodau i wella yn y dyfodol agos, y dylai'r Cyngor ystyried opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â dod â'r cytundeb prydles i ben a dod o hyd i weithredwr arall.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden a'r Pennaeth Adfywio fod y Cyngor yn cydnabod yr anawsterau parhaus yn yr Harbwr a bod trafodaeth reolaidd yn parhau gyda'r gweithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau, aelodau lleol, Cadeirydd FBML, a'r gwasanaethau cyfreithiol i geisio datrys y sefyllfa anfodddhaol bresennol. Dywedwyd hefyd bod yn rhaid dilyn y broses gyfreithiol briodol o ystyried statws y cytundeb prydles hirdymor a'i bod yn anochel y byddai materion o'r fath yn cymryd amser i fynd i'r afael â nhw a'u datrys yn llawn, yn anffodus. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai materion yn parhau i gael eu datblygu cyn gynted â phosibl ac fe'u hatgoffwyd bod y Cyngor wedi dechrau ar broses gyfreithiol i sicrhau bod ei asedau'n cael eu diogelu tra bod yr holl opsiynau ar gyfer y dyfodol yn cael eu hystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod pryderon y Pwyllgor ynghylch y sefyllfa bresennol yn Harbwr Porth Tywyn yn cael eu rhannu â'r Cabinet a bod y Cabinet yn cael ei ofyn i wneud y canlynol:**

1. Cynnal ymweliad safle â Harbwr Porth Tywyn ar lanw isel,
2. Ystyried terfynu'r cytundeb prydlesu gyda Burry Port Marine Ltd os nad oes gwelliannau wedi'u cyflawni erbyn diwedd y broses gyfreithiol bresennol.

## **5. CYNLLUN CREU LLEOEDD PORTH TYWYN**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar y cynigion ar gyfer mabwysiadu Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer Porth Tywyn cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Datblygwyd y Cynllun gyda rhanddeiliaid allweddol yn yr ardal i nodi cyfleoedd sy'n cyd-fynd â'r cynigion adfer ar gyfer canol y dref â dyheadau adfywio glan yr harbwr i sicrhau bod Porth Tywyn yn manteisio i'r eithaf ar adfywio arfaethedig yn yr ardal leol. Nodwyd y byddai'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r Cynllun yn arwain ac yn cefnogi ceisiadau am gyllid yn y dyfodol, a'r prif nodau yw:

- Tyfu busnes presennol,
- Creu cynifer o swyddi â phosibl,
- Cefnogi datblygiad economi wybodaeth,
- Datblygu natur unigryw yr ardal,
- Nodi rôl darparu gwasanaethau yn y gymuned yn bresennol ac yn y dyfodol,
- Cefnogi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ynni cynaliadwy,
- Sefydlu cynhyrchu incwm cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol,
- Cynyddu cydnerthedd, cynaliadwyedd a thwf y dref a'r cymunedau bwydo o'i chwmpas yn y dyfodol.

Rhodddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at ddatblygiad arfaethedig 250 o gartrefi ar hen Safle Grillo, ynghyd â thair eraill a ddarparwyd yn ddiweddar, ac i weld a roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r effaith y gallai'r datblygiadau hynny ei chael ar wasanaethau deintyddol a meddygon teulu, yn enwedig gan mai dim ond un feddygfa oedd yn gwasanaethu'r ardal gyfan erbyn hyn.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod gan y datblygiad arfaethedig ganiatâd cynllunio amlinellol ar hyn o bryd. Wrth i'r datblygiad fynd rhagddo drwy'r broses gynllunio ffurfiol, byddai unrhyw effaith bosibl ar ddarpariaeth iechyd yn yr ardal yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses honno

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch adran 4 yr adroddiad ar 'symudiad', ac i weld a fyddai'r ddarpariaeth parcio am ddim bresennol ar Seaview yn cael ei chadw, dywedodd y Pennaeth Adfywio na fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i warantu ei ddarpariaeth barhaus. Byddai hynny'n ddibynnol ar unrhyw drafodaethau gan y Cyngor yn y dyfodol fel rhan o'i strategaeth parcio ceir.
- Mewn ymateb i sawl cwestiwn ar wahanol agweddau ar y Cynllun, dywedodd y Pennaeth Adfywio wrth y Pwyllgor ei fod wedi'i gomisiynu yn 2021 a'i gwblhau ym mis Mai 2022. Felly, roedd y Cynllun yn adlewyrchu pwynt penodol mewn amser. Pe bai'r Cabinet yn mabwysiadu'r Cynllun, y cam nesaf fyddai i'r Rhanddeiliaid ffurfio grŵp i fwrw ymlaen a byddai'r grŵp hwnnw'n ystyried newid data ac ati a llunio blaenoriaethau yn unol â hynny. Wedyn byddai'r Is-adran Adfywio yn gweithio gyda'r Grŵp i hwyluso darpariaeth y Cynllun ac i archwilio cyfleoedd cyllido.
- O ran cwestiwn ar ddarparu'r siop Co-op newydd arfaethedig, dywedodd y Pennaeth Adfywio fod y datblygiad wedi cael caniatâd cynllunio a rhagwelir y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yn y dyfodol agos.
- Cyfeiriwyd at y cynllun, ynghyd â chynigion datblygu ar gyfer Porth Tywyn yn y dyfodol ac at yr effaith bosibl y gallai hynny ei chael ar lefelau traffig ar gyfer Heol y Sandy yn Llanelli.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod datblygiadau ym Mhorth Tywyn yn cael eu gwneud fel rhan o Gyd-fenter gyda Llywodraeth Cymru ac y byddai unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol yn ystyried effaith bosibl cynnydd mewn traffig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **6. Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - MYND I'R AFAEL Â THREFI**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Prosiect Mynd i'r Afael â Threfi cyn i'r Cabinet ei ystyried. Nodwyd bod y prosiect yn eistedd o fewn elfen Angori Lle y gronfa Ffyniant Gyffredin a oedd â'r nod o wella canol trefi Sir Gaerfyrddin trwy dargedu prosiectau cymorth ac ymyriadau i ymateb i'r heriau parhaus sy'n wynebu canol trefi. Byddai'r gronfa ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni'n uniongyrchol y camau allweddol a nodwyd o fewn uwchgynlluniau adfywio'r Cyngor ar gyfer Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman ynghyd â'r 11 cynllun tref arall a restrir yn yr adroddiad. Nododd y Pwyllgor fod Atodiad A i'r adroddiad yn manylu ar restr o flaenoriaethau ar gyfer pob un o'r 14 tref ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, y byddai'r timau cyflawni prosiectau yn gweithio i gyflawni'r prosiectau erbyn y dyddiad cau ym mis Medi 2024.

Rhodddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd unrhyw fanylion pendant ynghylch y prosiectau a nodwyd yn yr adroddiad neu a oeddent yn arwydd o orfod gwneud gwaith manwl a sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r prosiectau.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y prosiectau a restrir ar gyfnodau gwahanol o ran eu datblygu. Roedd rhai wedi'u datblygu'n dda ac roedd astudiaethau dichonoldeb ar gyfnodau gwahanol, lle'r oedd angen gwneud mwy o waith ar gyfer eraill e.e. caniatâd cynllunio ac roedd rhai yn gallu symud ymlaen yn gyflymach gan eu bod yn gynlluniau cymharol fach.

Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod yr holl brosiectau arfaethedig yn hyblyg ar hyn o bryd, a'r prif nod yw sicrhau bod modd eu cyflawni erbyn mis Medi 2024. Pe bai'n dod yn amlwg na fydd modd cyflawni rhai prosiectau o fewn yr amserlen, roedd hyblygrwydd o fewn y system i symud ymlaen gyda dewisiadau amgen. Yn yr un modd, o ran cyllid, gallai ffrydiau cyllido eraill fod ar gael i ddatblygu prosiectau.

- Mewn ymateb i gwestiwn ar argaeledd gwahanol raglenni ariannu, cadarnhaodd y Pennaeth Adfywio y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i aelodau gael rhestr, fesul ward, o'r prosiectau amrywiol sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r rhaglenni hynny.
- O ran cwestiwn ar y broses o nodi prosiectau i'w datblygu, cadarnhawyd eu bod wedi cael eu dewis gan y fforymau ym mhob un o'r trefi.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cwblhau'r prosiectau erbyn mis Medi 2024, dywedodd y Pennaeth Adfywio fod hynny wedi'i bennu gan y Gyfundrefn Ariannu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## **7. ADRODDIAD DIWEDDARU - DYRANNU TAI CYMDEITHASOL BRYN YNGHYLCH RHOI'R POLISI DYRANNU NEWYDD AR WAITH (MONITRO)**

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Bryn newydd a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nodwyd bod cynnwys yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod blaenorol yn ymwneud â'r canlynol:-

1. Cyfran yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol a'r rhai a hysbysebwyd,
2. Band os yw cleientiaid wedi'u paru yn uniongyrchol,
3. Nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol ac a hysbysebwyd gan bob ardal gymunedol, math o eiddo a landlord,
4. Cyfran yr achosion o baru uniongyrchol a oedd yn llwyddiannus,
5. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle mae'r cleient yn gofyn am adolygiad o'r dyraniad, a chanlyniad yr adolygiadau hynny,
6. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle mae'r cleientiaid yn gwrthod y dyraniad ond nid yw'n gofyn am adolygiad.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ar y gostyngiad yng nghyfran yr eiddo a barwyd yn y chwarter cyntaf a'r ail chwarter, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y gellid ei briodoli i nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o eiddo sydd ar gael, eu lleoliad ac a oeddent mewn ardaloedd yr oedd pobl am fyw ynddynt. Fodd bynnag, ceisiodd yr awdurdod baru eiddo â phobl mewn ardaloedd yr oedd ganddynt gysylltiad â nhw, ond efallai na fyddant bob amser yn addas.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd fod y data y manylwyd arno yn yr adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2023 lle rhoddwyd pwerau i'r Pennaeth Tai baru eiddo yn uniongyrchol mewn rhai amgylchiadau. Byddai'r Polisi newydd, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023, yn caniatáu i'r gwasanaeth baru pob tenant ym Mand A a B yn uniongyrchol a fyddai'n arwain at ostyngiad yn lefel y tai sy'n cael eu hysbysebu.

- Cadarnhawyd bod pob un o'r 4,500 ar y gofrestr Tai wedi derbyn gohebiaeth yn manylu ar y newid i'r Polisi Dyrannu Brys newydd.
- Cadarnhawyd, ar hyn o bryd, fod gan yr is-adran tai ddigon o adnoddau i weinyddu'r system newydd yn dilyn cynnydd yn y niferoedd ar y gofrestr tai o 4412 ym mis Hydref 2022 i 4551 ar 12 Ebrill 2022. Pe bai amgylchiadau'n newid ac ystyrir bod angen adnoddau ychwanegol, byddai cais am yr adnoddau hynny'n cael ei gyflwyno yn unol â'r arfer.
- O ran comisiynu ystafelloedd mewn gwestai a llety gwely a brecwast, cadarnhawyd y byddai hynny'n cael ei leihau lle bynnag y bo modd. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor hefyd nad oedd unrhyw deulu â phlant yn cael eu rhoi mewn llety o'r fath adeg paratoi'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd y byddai'r gwasanaeth yn symud i ffwrdd o'r gwestai math mwy / llety gwely a brecwast i ddarparwyr llai a byddai'r aelod lleol yn cael gwybod am y ddarpariaeth honno yn eu ward.

- Cyfeiriwyd at ddisgwyliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am ostyngiad yn nifer y bobl sy'n ddigartref. Gan nad oedd y gostyngiad hwnnw wedi digwydd, gofynnwyd am esboniad a oedd unrhyw resymau penodol dros y cynnydd presennol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod nifer o resymau dros y cynnydd y gellid eu priodoli i Reoliadau Llywodraeth Cymru, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ynghyd â'r argyfwng costau byw. O ran y Ddeddf Rhentu Cartrefi, roedd yr amddiffyniad ar gyfer tenantiaid presennol wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023. Felly, gallai landlordiaid ddal i gyhoeddi Hysbysiadau Adran 21 hyd at ddiwedd mis Mai. Roedd ôl-groniad o bedwar mis hefyd

yn y llysoedd ar gyfer Hysbysiadau Adran 21 a fyddai'n golygu y byddai hysbysiadau pellach yn cael eu rhoi a phobl yn ddigartref.

- O ran cynnydd yn nifer y bobl ym Mand A, roedd modd priodoli hynny i'r rhai ym Mand B oedd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref yn cael eu symud i Fand A er mwyn hwyluso eu hailgartrefu cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad monitro.**

**8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ADFYWIO AR GYFER 2023/24**

Bu'r Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2023/24 a oedd yn nodi manylion materion ac adroddiadau i'w hystyried yn ystod y blwyddyn y cyngor. Nodwyd, gan fod y Cynllun yn 'ddogfen fyw', y byddai'n esblygu'n barhaus trwy gydol blwyddyn y Cyngor wrth i Flaengynllun y Cabinet esblygu ac yn sgil ceisiadau gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaengynllun Gwaith drafft 2023/24.**

**9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 5ED EBRILL 2023**

Cyfeiriwyd at Gofnod 8 yn ymwneud â'r Cynllun Busnes Lle a Chynaliadwyedd ac at drafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod ar gyfathrebiad sy'n cael ei anfon gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd at bob aelod etholedig yn amlinellu proses Adran 106 a'u cyfranogiad yn y broses honno. Awgrymwyd y dylid diwygio cofnodion y cyfarfod i adlewyrchu hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2023 yn cael eu llofnodi'n gofnod cywir yn amodol ar ddiwygio cofnod 8 i adlewyrchu bod cyfathrebiad wedi'i anfon at yr holl aelodau etholedig o'u cyfraniad yn y broses Adran 106.**

---

**CHAIR**

---

**DATE**